# CASE STUDIES – EQUALITIES (scroll down for welsh)

A – A handful of students are often racially abused in the school corridor and more explicitly people calling names like,  "Pxxx, Terrorist…go back to your own country !". They don't think the teachers handle it and don't feel understood, as a professional they come to you for help and advice.
What rights are important here?
What would you do?

B – Fats is a 15 years old. She was apprehended at a rally for Black lives matter when an altercation broke out between police and demonstrators. She was placed in a police van. Her and her parents claim that she was treated unfairly by police because she is black, you have worked with Fats for a number of years and she wants your support to challenge the police.
What rights are important here?
What would you do?

C – Izwan is a 13 year old and attends a local comprehensive that you support. He has told you a number of times about a teacher who he felt has treated him differently, his friends think it is because of his race. He asks your opinion what do you do?
What rights are important here?
What would you do?

D – Jorna is a 14 year old girl from a gypsy roma community and lockdown has had a big impact on her mental health, she is finding it hard to attend school and to keep up with her friends. She has been a regular visitor to your service, but you notice she is quiet and coming less often. What could you do?
What rights are important here?
What would you do?

E – Lloyd is a 13 year old male and has been struggling because his friends, parents and community are not willing to accept his sexuality, he is keen to explore his sexuality and find other young people who understand him. He is worried about this and has asked for your advice.
What rights are important here?
What would you do?

# ASTUDIAETHAU ACHOS – CYDRADDOLDEB

A – Mae llond dwrn o fyfyrwyr yn aml yn cael eu sarhau'n hiliol yng nghoridor yr ysgol. Yn fwy penodol, mae pobl yn galw enwau fel, "Pxxx, Terorist... cer nôl i dy wlad dy hun!". Dydyn nhw ddim yn teimlo bod yr athrawon yn delio â hyn, a dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn cael eu deall. Maen nhw'n troi atoch chi, fel gweithiwr proffesiynol, am help a chyngor.
Pa hawliau sy'n bwysig yma?
Beth fyddech chi'n gwneud?

B – Mae Fats yn 15 oed. Cafodd ei dal mewn rali Mae Bywydau Du o Bwys (Black Lives Matter) pan fu gwrthdaro rhwng yr heddlu a'r protestwyr. Cafodd ei rhoi yn un o faniau'r heddlu. Mae hi a'i rhieni'n honni bod yr heddlu wedi'i thrin yn annheg oherwydd ei bod yn ddu. Rydych chi wedi gweithio gyda Fats am nifer o flynyddoedd, ac mae hi eisiau eich cefnogaeth chi i herio'r heddlu.
Pa hawliau sy'n bwysig yma?
Beth fyddech chi'n gwneud?

C – Mae Izwan yn 13 oed ac yn mynd i ysgol gyfun leol rydych chi'n ei chefnogi. Mae e wedi sôn wrthych chi nifer o weithiau am athro mae e'n teimlo sydd wedi ei drin yn wahanol. Mae ei ffrindiau'n meddwl mai ei hil yw'r rheswm am hynny, ac mae'n gofyn eich barn chi. Beth rydych chi'n ei wneud?
Pa hawliau sy'n bwysig yma?
Beth fyddech chi'n gwneud?

D – Mae Jorna yn ferch 14 oed o gymuned sipsiwn roma ac mae'r cyfnod clo wedi cael effaith fawr ar ei hiechyd meddwl. Mae hi'n cael trafferth dod i'r ysgol a dal i fyny â'i ffrindiau. Mae hi wedi bod yn ymweld â'ch gwasanaeth yn rheolaidd, ond rydych chi'n sylwi ei bod hi'n dawel ac yn dod yn llai aml. Beth allech chi wneud?
Pa hawliau sy'n bwysig yma?
Beth fyddech chi'n gwneud?

E – Mae Lloyd yn fachgen 13 oed ac wedi bod yn cael trafferth ymdopi oherwydd bod ei ffrindiau, ei rieni a'i gymuned ddim yn barod i dderbyn ei rywioldeb. Mae e'n awyddus i archwilio'i rywioldeb a dod o hyd i bobl ifanc eraill sy'n ei ddeall. Mae'n pryderu am hyn ac wedi gofyn am eich cyngor.
Pa hawliau sy'n bwysig yma?
Beth fyddech chi'n gwneud?